**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher 11 Rhagfyr 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher 18 Rhagfyr 2024. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau, 19 Rhagfyr 2024.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Cadeirydd), Robin Williams, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Dafydd Rhys Thomas

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Liz Wood.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Carwyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:30 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ionawr i Awst 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo Cynllun Strategol Caffael y Cyngor a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (Atodiad A yr adroddiad).**<br>• **Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (Atodiad B yr adroddiad).**<br>• **Dirprwyo unrhyw benderfyniadau pellach y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Caffael i'r Deilydd Portffolio Cyllid. Bydd yr holl benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi yn y ffordd arferol.**<br>• **I ofyn i Swyddogion ddarparu eglurhad mewn perthynas â safonau sicrwydd fferm Global G.A.P ac adrodd yn ôl yn dilyn hynny gyda'r bwriad o sicrhau bod disgwyliadau'r Cyngor, mewn perthynas â'i gyflenwyr, yn cyd-fynd â safonau ac arferion lleol a chenedlaethol cyfredol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adolygu strategaeth a phrosesau caffael y Cyngor i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth caffael newydd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –** |

| | |
|---|---|
| | • **Cynnydd o 2.7% ar draws yr holl unedau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.**<br>• **Cynnydd o £1.00 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.**<br>• **Codi taliadau gwasanaeth fel y nodir yn adran 6.3 yr adroddiad ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**<br>• **Gweinyddu'r Cynllun Cymorth Rhent - sef cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sydd mewn trafferthion ariannol.**<br>• **Bod llythyr yn cael ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn datgan nad yw'r cynnydd mewn rhenti yn ddigonol i alluogi'r CRT ariannu'r costau uwch o ganlyniad i gyfraniadau ychwanegol gan gyflogwyr YG yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb, safonau SATC2023 a chwyddiant costau adeiladu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Codi lefelau rhent yn unol â Pholisi Rhent Llywodraeth Cymru** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |